

---

**Cofnodion Cyfarfod Agored Pwyllgor Cynghori Ar Fwyd Cymru A Gynhaliwyd  
Ar 24 Hydref 2019 Yng Ngwesty St George, Y Promenâd, Llandudno, LL30 2LG**

**Yn bresennol:**

**Aelodau Pwyllgor Cynghori ar Fwyd Cymru (y Pwyllgor) a oedd yn bresennol:**

Dr R Hussey, Cadeirydd  
Dr N Barry  
Mr J Wilson  
Mr A Gardner  
Dr P Hollington  
Mr R Alexander

**Swyddogion yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) a oedd yn bresennol:**

Nathan Barnhouse – Cyfarwyddwr yr ASB yng Nghymru  
Alice Teague – Pennaeth Polisi a Phartneriaethau Rheoleiddio, ASB yng Nghymru  
Lucy Edwards – Ysgrifenyddiaeth  
Helen George – Ysgrifenyddiaeth

**Rhanddeiliaid a oedd yn bresennol:**

Cynrychiolwyr o'r canlynol:

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru  
Fforwm Cydnerthedd Gogledd Cymru  
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr  
Cyngor Sir Ddinbych  
Cyngor Sir y Fflint  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam  
Undeb Amaethwyr Cymru  
Cyngor Sir Ynys Môn  
Conwy Kombucha Ltd  
Cyngor Sir Powys  
Pennotec (Pennog Ltd)  
Cymdeithas Brydeinig ar gyfer Saethu a Chadwraeth  
Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru  
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

**Cyflwyniadau gan:**

Michelle Patel a Rebecca Gillespie, Gwyddor Gymdeithasol yr ASB.  
Alice Teague, Pennaeth Polisi a Phartneriaethau Rheoleiddio, ASB yng Nghymru  
Ann Marie Flinn – Rheolwr Technegol, Canolfan Technoleg Bwyd, Coleg Menai

## **1. Cyflwyniadau**

- 1.1. Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a rhoddodd wybod mai'r cyfarfod oedd yr ail i'w gynnal yn dilyn yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2018 ar weithrediadau'r Pwyllgorau Cyngkori ar Fwyd yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon. Atgoffodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor, yn dilyn yr adolygiad, wedi symud tuag at ffordd fwy blaengar o weithio ac, yn unol â'r argymhellion a wnaed yn yr adolygiad, y byddai'n canolbwyntio ar ddatblygu ei wybodaeth (*intelligence*)/mewnwelediad ei hun a allai gyfrannu at faterion i'w ystyried gan y Bwrdd. Dywedodd y Cadeirydd y byddai gwybodaeth y Pwyllgor yn atodol i wybodaeth a ddarparwyd eisoes i'r ASB o ystod eang o ffynonellau eraill, gan gynnwys cyngor gan grwpiau cyngkori arbenigol, cyngor gwyddonol, data o raglenni gwyddor gymdeithasol a mewnwelediad defnyddwyr a rheoli digwyddiadau. Hysbysodd y Cadeirydd y byddai'r ffordd newydd o weithio yn cael ei monitro a'i hadolygu a dywedodd y byddai'n croesawu adborth gan randdeiliaid ar drafodion y dydd.
- 1.2. Nodwyd ymddiheuriadau gan Julie Pierce, Mr D Peace a Mrs B Lyne-Pirkis.

## **2. Datganiadau o fuddiannau**

- 2.1. Fe nododd aelodau'r Pwyllgor y datganiadau canlynol o fuddiannau:

- Dywedodd Norma Barry ei bod hi'n gweithio ar aseiniadau ymgynghoriaeth ar gyfer busnesau bwyd sy'n cynnwys drafftio polisïau adnoddau dynol a chynlluniau busnes. Dywedodd Norma hefyd ei bod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru.
- Dywedodd Ruth Hussey ei bod hi'n Llywodraethwr y Sefydliad Iechyd, Comisiynydd y Comisiwn LSE/Lancet ar 'Dyfodol y GIG' ac yn Aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Iechyd. Mae gan Ruth aelodau o'r teulu sy'n ffermwyr hefyd.
- Dywedodd James Wilson ei fod yn aelod o Fwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ac yn berchen ar fusnes pysgod cregyn.
- Dywedodd Philip Hollington ei fod yn aelod o Gymdeithas Glaswelltir Prydain a'r Gymdeithas Amaeth Drofannol.
- Dywedodd Ronnie Alexander ei fod yn aelod o Bwyllgor Safonau Bro Morgannwg.

- 2.2. Nodwyd pob datganiad.

## **3. Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

- 3.1 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf yn gywir.  
**Cam gweithredu: Ysgrifenyddiaeth. Cofnodion i'w cyfieithu a'u cyhoeddi ar y wefan.**

#### **4. Adroddiad gan y Cadeirydd (Papur FSAW 19/10/02)**

- 4.1. Cyflwynodd y Cadeirydd ei hadroddiad ysgrifenedig a oedd yn crynhoi'r trafodaethau yng nghyfarfod diwethaf y Bwrdd ac yn ymdrin â thrafodaethau a gynhaliwyd ganddi gyda Chadeirydd y Bwrdd, a Chadeirydd y Pwyllgor Cynghori ar Fwyd yng Ngogledd Iwerddon, mewn perthynas â'r adolygiad o'r pwyllgorau. Nodwyd bod y trefniadau newydd ar gyfer cyfarfodydd yn gweithio'n dda ac y byddent yn parhau i gael eu hadolygu er mwyn llywio dull strategol yr ASB. Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r pwyllgor a gymerodd ran dros yr haf yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru. Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau nodi'r strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru sy'n cyfeirio at yr amgylchedd bwyd yng Nghymru a allai fod yn berthnasol. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r adroddiad.

#### **5. Diweddariad gan y Cyfarwyddwr (Papur FSAW 19/10/03)**

- 5.1. Cafodd y Pwyllgor yr adroddiad arferol gan Gyfarwyddwr Cymru, a nododd fod cyfarfodydd wedi'u cynnal gydag ystod o randdeiliaid. Soniodd yr adroddiad am ymgynghoriad diweddar ar Reoliadau Rheolaethau Swyddogol, ailgyflwyno Grŵp Ffocws Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd y Deyrnas Unedig (DU), diweddariad ar Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (UE) a Gŵyl Gwyddor Gymdeithasol yr ESRC. Mewn diweddariad llafar pellach, soniodd y Cyfarwyddwr am gyfarfod agoriadol y pwyllgor Cyswllt Gorfodi Cyfraith Bwyd yng Nghymru. Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r adroddiad.

#### **6. Y System Fwyd yng Nghymru – Trafodaeth agored**

- 6.1. Agorodd y Cadeirydd y trafodaethau gan ailadrodd mai pwrpas y trafodaethau agored oedd cynorthwyo'r Pwyllgor i ddatblygu ei fewnwelediad a'i wybodaeth ei hun a allai gyfrannu at faterion sy'n debygol o fod yn nodwedd o drafodaethau'r Bwrdd sydd ar y gweill. Dywedodd y Cadeirydd fod ganddi ddiddordeb arbennig mewn cyfleoedd i'r Pwyllgor archwilio unrhyw agweddau ar fater sy'n benodol i'r wlad dan sylw. Ychwanegodd y Cadeirydd y byddai'n croesawu deialog gynhwysol a gwahoddodd randdeiliaid a oedd yn bresennol i gymryd rhan yn y trafodaethau.
- 6.2 I ddisgrifio'r sefyllfa ac er mwyn hwyluso trafodaethau, cafwyd cyflwyniadau gan Michelle Patel, Rebecca Gillespie, Alice Teague ac Ann Marie Flinn.

#### **7. Y System Fwyd yng Nghymru: Adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael – Michelle Patel a Rebecca Gillespie, Gwyddor Gymdeithasol yr ASB**

- 7.1 Roedd y cyflwyniad yn rhoi trosolwg o'r papur a gynhyrchwyd gan dîm Dadansoddeg yr ASB, mewn cydweithrediad â chydweithwyr yr ASB yng Nghymru (gyda data economaidd wedi'i ddarparu gan Adran Bwyd ac Amaeth Llywodraeth Cymru). Roedd y papur a gyflwynwyd yn seiliedig ar ddiffiniad o gydrannau'r system fwyd fel y manylwyd arnynt mewn gwaith academaidd diweddar a gynhaliwyd yn y maes hwn. Roedd y dull gweithredu yn rhannu'r system fwyd yn gydrannau o'r gadwyn fwyd gan gynnwys mewnbwn ffermio, cynhyrchu amaethyddol, dosbarthu, cludo a masnach, prosesu, manwerthu/gwasanaeth bwyd a bwyta ac elfennau eraill o'r system gan gynnwys yr economi. Roedd y papur a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael yn erbyn pob cydran ac yn nodi nifer o fylchau yn y dystiolaeth i'w hystyried. Roedd y papur a gyflwynwyd yn bapur cychwynol a fyddai'n parhau i gael ei ddatblygu.
- 7.2 Croesawodd y Pwyllgor y papur rhagarweiniol a chydnabu fod hwn yn bwnc helaeth y byddai angen ei archwilio ymhellach. Gan gydnabod natur gymhleth y system fwyd, a'r dystiolaeth sydd ar gael, hysbysodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig archwilio beth mae'r dystiolaeth yn ei olygu i'r ASB ac i'r defnyddiwr. Amlygwyd yr angen i ddeall unrhyw fylchau mewn tystiolaeth a sefydlu a oes unrhyw risgiau nad yw'r ASB yn ymwybodol ohonynt, ynghyd â'r angen i gael gwell dealltwriaeth o rai rhannau o'r system fwyd ddeinamig. O ran bylchau mewn tystiolaeth, amlygwyd y meysydd canlynol:
- Beth yw dealltwriaeth y defnyddiwr o ddiogelwch bwyd ac a yw diogelwch bwyd yn peri mwy o bryder yng Nghymru o ystyried y lefelau uwch o dlodi bwyd?
  - Pa waith sy'n cael ei wneud yn y byd academaidd yng Nghymru?
  - A yw mynediad at fwyd fforddiadwy a'i argaeledd yn broblem ac a oes risgiau twyll bwyd posibl yn gysylltiedig â hyn?
- 7.3 O ran cyfleoedd, amlygwyd y dirwedd newidiol a thrafodwyd y posibilrwydd o fwyta mwy o broteinau morol a phroteinau pryfed yn ogystal â'r defnydd newydd o wastraff bwyd/sgil-gynhyrchion bwyd. Nododd y pwyllgor y byddai cynhadledd Gwir Fwyd a Ffermio Cymru yn Aberystwyth yn ddefnyddiol wrth lywio dealltwriaeth yr ASB o gadwyni bwyd cynaliadwy.
- 7.4 Trafodwyd yr angen i gael gwell dealltwriaeth o ddosbarthiad bwyd o safleoedd cynhyrchu cynradd i safleoedd manwerthu/lletygarwch yng Nghymru. Nodwyd bod lwerddon yn farchnad allforio sylweddol ond gwyddys llai am ddosbarthu a chcludiant bwyd yn fewnol rhwng Cymru a Lloegr lle mae'r rhan fwyaf o fwyd yn cael ei ddosbarthu. Credwyd y gallai'r pwyllgor edrych ar gynnyrch bwyd penodol i archwilio o ble mae'r cynhwysion yn dod ac i ble mae'r cynnyrch yn cael ei ddosbarthu fel ffordd o ddeall dymameg y system. Hefyd, gellid datblygu'r papur ymhellach, o'r dystiolaeth a gasglwyd hyd yn hyn, i ganolbwyntio ar y cwestiwn 'beth mae pobl yng Nghymru yn ei fwyta?'. Gallai'r dull hwn helpu i nodi grwpiau o'r boblogaeth lle gallai risgiau fod yn gronnus a thrwy hynny lywio strategaeth yr ASB. Maes arall i'w drafod a'i archwilio yn y dyfodol o bosib fyddai sut mae'r amgylchedd polisi yng Nghymru yn dylanwadu ar y tueddiadau yn y system fwyd er enghraifft bwydydd newydd neu rai dewisiadau sy'n cael eu gwneud i gefnogi elfennau o bolisiau, hynny yw lles cenedlaethau'r dyfodol

a pholisïau amgylcheddol.

7.5 Roedd yr arsylwadau a wnaed gan randdeiliaid a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn cynnwys y risg uwch o dwyll bwyd, hefyd masnachu pobl a materion croeshalogi posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Amlygwyd gweithlu'r system fwyd gan gynnwys y sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y dyfodol a'r rôl y mae gweithwyr mudol yn ei chwarae yn y diwydiant bwyd. Amlygwyd hefyd nifer y busnesau bach a chanolig yng Nghymru a chynnydd yn y bwyd sy'n dod o farchnadoedd lleol a gwyliau bwyd.

7.6 Cytunwyd, o ystyried cymhlethdod y system fwyd a'r materion a godwyd yn ystod y drafodaeth, bod angen myfyrio ymhellach i lywio'r camau nesaf wrth fapio ac archwilio'r system fwyd yng Nghymru.

## **8. Mewnforion ac Allforion yng Nghymru - Alice Teague, ASB yng Nghymru**

8.1 Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o Fewnforion ac Allforion yng Nghymru a manylu ar rôl Defra fel yr Awdurdod Cymwys Canolog (ACC) ar gyfer Masnach Ryngwladol a rôl yr ASB wrth sicrhau bod bwyd a diod sy'n cael eu hallforio o'r DU i drydydd gwledydd wedi'u cynhyrchu yn unol â gofynion yr UE. Dangosodd y cyflwyniad werth ariannol mewnforion ac allforion yn ôl cynnyrch a gwledydd cyrchfan.

8.2 Cymerodd y Pwyllgor sylw o'r cyflwyniad a bydd yn ceisio adlewyrchu'r wybodaeth hon yn rhan o'r gwaith parhaus ar y system fwyd yng Nghymru.

## **9. Canolfan Technoleg Bwyd – Ann Marie Flinn, Coleg Menai**

9.1 Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o waith y Ganolfan Technoleg Bwyd a manylodd ar y cyfleusterau a'r gwasanaethau sydd ar gael i gefnogi busnesau bwyd yng Nghymru. Fe wnaeth y pwyllgor gydnabod gwaith cynhwysfawr y Ganolfan Technoleg Bwyd a nododd ei bod yn ddefnyddiol deall sut mae'r Ganolfan yn gweithio mewn partneriaeth â Zero 2 Five a Chanolfan Bwyd Cymru i ffurfio Arloesi Bwyd Cymru, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnyrch newydd, rhannu gwybodaeth wyddonol a gwybodaeth i gefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu ymhellach y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Dywedodd dau randdeiliad a oedd yn bresennol yn y cyfarfod eu bod wedi gweithio gyda'r Ganolfan Technoleg Bwyd o'r blaen, gan roi canmoliaeth uchel i'r gefnogaeth a gafwyd.

## **10. Sesiwn Holi ac Ateb**

10.1 Ni chodwyd unrhyw faterion.

**11. Unrhyw fater arall**

11.1 Nododd y Pwyllgor y byddai'r cyfarfod nesaf yn gyfarfod busnes ar 28 Tachwedd 2019 ac y byddai'r cyfarfod agored nesaf ar 9 Ionawr yn Llandudno.

Diweddariad: Oherwydd y cyfnod cyn yr etholiad, mae cyfarfod busnes y Pwyllgor a'r cyfarfod agored nesaf bellach yn cael eu cynnal ar 16 Ionawr.